


© Llun/Picture Michael Smith

# Nodweddion Diddorol

**A Rheilffordd y Clogwyn**
Mae rheilffordd y clogwyn ymhlith y rhai serthaf yn y byd, gyda graddiant o 30 gradd, ac fe'i gyrrir gan bwysau dŵr. Mae ganddi ddau gerbyd a gysylltir gan gablen ddur. Wrth i'r naill gerbyd ddisgyn, tynnir y llall i fyny. I fynd i fyny neu i lawr, arllwysir dŵr i danc yn y cerbyd sydd ar y top tan ei fod yn ddigon trwm i dynnu'r cerbyd ar y gwaelod i fyny. Wedyn, rhyddheir y breciau, ac mae disgyrchiant yn gwneud y gweddill!

**B Tyrbin Gwynt**
Mae'r tyrbin yn un o ddau sy'n eiddo i Ynni Adnewyddadwy Cymunedol Bro Dyfi, cwmni ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned. Mae'r tyrbin yn cynhyrchu trydan ar gyfer y rhwydwaith trydan lleol, ac mae unrhyw warged yn mynd i'r Grid Cenedlaethol. Mae wedi bod ar waith ers 2003, ac mae'n enghraifft o gymuned a buddsoddwyr gyda meddylfryd amgylcheddol yn dod at ei gilydd i greu cynlluniau lleol a'u rhoi ar waith er mwyn ymateb yn uniongyrchol i newid hinsawdd, hybu adfywio lleol, a chryfhau hunanddibyniaeth.

**C Pyllau**
Yn yr haf, mae'r pyllau hyn yn fyw o fursennod a gweision y neidr. Edrychwch am fflachiau o las trydan wrth i'r mursennod glas cyffredin fwydo uwch ben y dŵr.



© Llun/Picture Michael Smith

**D Chwarel Llechi Llwyngwern**
Mae'r chwarel wedi bod yma ers o leiaf 1835, a bu'n gweithio trwy'r 1920au a'r 1930au, gyda nifer y gweithwyr yn amrywio rhwng deg a deg ar hugain. Caeodd y chwarel ym 1941, ac er y bu ymdrech i'w hailagor yn ystod y 1950au, sgrapiwyd gweddill y peiriannau ym 1959, a dadfeiliodd yr adeiladau. Bellach, mae'r chwarel yn gartref i Ganolfan y Dechnoleg Amgen.

**E Canolfan y Dechnoleg Amgen**
Sefydlwyd Canolfan y Dechnoleg Amgen gan Gerard Morgan-Grenville, dyn busnes a ddaeth yn amgylcheddwr, ac fe'i hagorwyd ym 1973 yn y chwarel segur. Mae'n ganolfan ecolegol sydd wedi ymroi i ddangos a dysgu datblygu cynaliadwy, gan ddarparu gwybodaeth ar bob agwedd ar fywyd cynaliadwy, ynni adnewyddadwy, pensaernïaeth gynaliadwy, ffermio organig, a garddio.

# Points of Interest

**A Cliff Railway**
The water-balance cliff railway is one of the steepest cliff railways in the world, with a gradient of 35 degrees. There are two carriages linked by a steel cable. As one carriage descends the other is pulled up. To go up or down water flows into a tank in the top carriage until it is heavy enough to pull the lower carriage up, the brakes are released, and gravity does the rest!

**B Wind Turbine**
The turbine is one of two owned by Bro Dyfi Community Renewables (BDCR), a community owned renewable energy company. The turbine generates power feeding into the local electricity network, with any surplus going to the National Grid. Operating since 2003 this is an example of communities and environmentally conscious investors coming together to create and deliver local schemes that are a direct response to climate change, boost local regeneration and strengthen self-reliance.

**C Ponds**
In summer these ponds are alive with damsel and dragonflies. Look out for flashes of electric blue as the Common Blue damselfly feeds above the water.

© Llun/Picture Michael Smith



**D Llwyngwern Slate Quarry**
The quarry dates from at least 1835 and was worked through the 1920s and 30s, the workforce varying between ten and thirty. Working was discontinued in 1941 and although attempts were made to reopen during the 1950s, the remaining machinery was scrapped in 1959 and the buildings fell into ruin. The quarry is now the site of the Centre for Alternative Technology.

**E Centre for Alternative Technology (CAT)**
CAT was founded by businessman-turned-environmentalist Gerard Morgan-Grenville, and opened in 1973 in the disused quarry. It is an eco-centre dedicated to demonstrating and teaching sustainable development, providing information on all aspects of sustainable living, renewable energy, sustainable architecture, organic farming and gardening.

© Llun/Picture CAT





# Taith Gerdded Canolfan Dechnoleg Amgen

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Centre for Alternative Technology Walk

© Clawr/Cover Jeremy Moore



**Dechrau:** Maes parcio Canolfan y Dechnoleg Amgen
**Cyfeirnod Grid:** SH 754 044
**Pellter:** 7.1 km - 4.4 milltir
**Gradd:** Canolig, (gyda rhai mannau serth)
**Tirwedd:** Llwybrau cadarn, ffyrdd, a chaeau
**Mapiau:** Arolwg Ordnans Explorer - OL23 neu 215
**Lluniaeth:** Caffi Canolfan y Dechnoleg Amgen, tafarn Dwynant - Ceinws




**Start:** Centre for Alternative Technology (C.A.T) car park
**Grid Reference:** SH 754 044
**Distance:** 7.1 km - 4.4 miles
**Grade:** Moderate (some steep sections)
**Terrain:** Firm tracks, roads and open grassland
**Maps:** OS Explorer OL23 or 215
**Refreshments:** Café at C.A.T, Dwynant pub - Ceinws


© Llun/Picture Jeremy Moore

# Taith Canolfan Dechnoleg Amgen
# Centre for Alternative Technology Walk

1. Cerddwch yn ôl i fynedfa'r **A** maes parcio a throwch i'r dde i fyny'r ffordd tan gyrraedd arwydd ar gyfer Fferm Llwyngwern, wedyn i'r dde i ddilyn y dreif o gwmpas cefn y tŷ. Dilynwch y llwybr i fyny'r bryn trwy giât ac wedyn ail giât ar y chwith cyn cerdded trwy 4 giât, y naill ar ôl y llall wrth ochr ffald defaid.
2. Ychydig ar ôl i'r ffens ar y dde ddarfod, trowch i'r chwith ychydig i ddilyn llwybr anamlwg i fyny'r bryn. Wrth i'r llwybr ddarfod, daliwch i ddringo i fyny gan droi ychydig i'r chwith o gwmpas brig y bryn. Pan welwch y tyrbin ar y dde, cerddwch tuag ato dros ael y bryn. 100 metr cyn i chi gyrraedd giât o dan y tyrbin **B**, trowch i'r dde. Ewch trwy giât uwchben cors ar y dde, ac wedyn cerddwch yn raddol tuag at y goedwig i gyrraedd cornel chwith y cae.
3. Trowch i'r chwith trwy giât gan ddilyn y ffens trwy giât arall, gan gadw i'r chwith tan i chi gyrraedd pen y banc. Wrth i chi ddechrau disgyn cerddwch heibio pwll **C** ar y chwith i gyrraedd ffald defaid a phwll corsog arall.
4. Ewch trwy'r giât i'r chwith o'r ffald, ac wedyn trowch hanner chwith i gerdded i lawr a thrwy bant yn y bryn i gyrraedd giât ar ffin y coetir. Ewch trwy'r giât a dilyn y trac o gwmpas troad sydyn. Wrth i'r llwybr ddechrau gwyro tua'r chwith, trowch i'r dde wrth ochr arwyddbost, ac i lawr y banc tan gyrraedd y gamfa. Ewch dros y gamfa a cherdded yn gyfliniellol â'r ffens ar y chwith i fynd trwy giât ar y chwith, ac wedyn trowch yn sydyn i'r chwith i gerdded i fyny trwy'r coed i gyrraedd y gyffordd.
5. Ewch yn syth dros y gyffordd ac i fyny'r trac at arwyddbost. Trowch i'r chwith i ddilyn llwybr siâl cyn ailymuno â thrac y goedwig ymhellach i fyny. Trowch i'r chwith ac ar hyd y llwybr cyn troi i'r dde wrth y gyffordd nesaf. Pan fyddwch yn cyrraedd arwyddbost, trowch i'r chwith ac wedyn i'r dde lle mae'r llwybr yn hollti i fynd trwy giât islaw'r tyrbin.




6. Ewch yn ôl yr un ffordd dros ael y bryn ac i lawr tuag at y trac a chornel y ffens yn **2**. Ewch trwy giât ar y chwith, ac wedyn yn groeslinol i lawr y bryn tan gyrraedd giât ar ffin y coetir.
7. Ewch trwy'r giât gan ddilyn y llwybr i lawr trwy'r coetir (cadwch bant o ochr y chwarel **D** ar y chwith) tan i chi gyrraedd y maes parcio.


© Llun/Picture CAT

1. Walk back to the car park entrance **A** and turn *R* up the road to reach a sign for Llwyngwern Farm, then turn *R* to follow the drive up around the back of the house. Follow track uphill through *G*, then a second *G* on your *L* before walking through 4 consecutive *Gs* next to a sheep enclosure.
2. Just beyond where the *RH* fence ends, bear *L* to follow a faint path uphill. As the path peters out continue to climb upwards veering slightly *L* around the dome of the hill. When you see the turbine to the *R* head for it over the brow of the hill. 100 m before you reach a *G* below the turbine **B** turn *R*. Go through a *G* above a bog on the *R*, then gradually close with the forestry to reach the *LH* corner of the field.
3. Turn *L* through *G* and follow the fence through another *G*, keeping *L* until you reach the top of the bank. As you start to drop down walk past a pond **C** on your *L* to reach a sheep enclosure and another marshy pond.
4. Go through *Gs* to the *L* of the enclosure, then half *L* to walk down and through a dip in the hill to reach a *G* on the woodland boundary. Through *G* and follow track on round a sharp bend. As the track starts to bear *L*, turn *R* next to a waymarked post down the bank to reach a *S*. Go over it and keep parallel with the *LH* fence to go through a *G* on *L*, then turn sharp *L* to walk up through the trees to reach a forestry track junction.
5. Walk directly across the junction and up the track to reach a waymarked post. Turn *L* to follow a shale path before re-joining the forestry track higher up. Turn *L* then continue along the track, before turning *R* at the next junction. When you reach a waymarked post, turn *L* then *R* where the path splits to go through a *G* below a turbine.
6. Retrace your outward steps over the brow of the hill and down heading for the track and fence corner below at **2**. Go through a *G* on *L*, then walk diagonally downhill to reach a *G* on the woodland boundary.
7. Go through the *G* and follow the path down through the woodland (keep away from the quarry **D** edge to the *L*) to reach the car park.

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Arolwg Ordnans 100019741.2014

© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100019741.2014